# Gwybodaeth am ryddhau cleifion ar ôl archwiliad o dan anesthetig

Hwb Llawfeddygol
Ysbyty Llandochau
Surgical Hub
@Llandough

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

## Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â'r archwiliad o dan anesthetig gydag un neu fwy o'r triniaethau canlynol:

- Torri tag croen
- Botox
- Fiswrectomi
- Bandio haemorrhoid
- Haemorrhoidectomi
- Agor ffistwla

## Ôl-ofal:

- Efallai y bydd gorchudd yn cael ei roi ar ardal eich clwyf. Bydd y nyrs yn eich cynghori ar beth i'w wneud ag ef.
- Efallai y byddwch yn cael carthyddion i fynd adref gyda chi; mae angen y rhain i osgoi rhwymedd.

## Ôl-ofal ar gyfer triniaeth benodol:

- **Therapi Botox:** bydd yr effeithiau'n para 2-3 mis, tra bod yr holltau'n gwella.
- **Hemorrhoidectomi:** efallai y bydd tampon bach (Spongostan) yn cael ei osod yn eich pen-ôl. Bydd hyn yn dod allan y tro cyntaf y byddwch yn ysgarthu.
- **Agor y ffistwla:** efallai y byddwch chi'n profi rhedlif parhaus o safle eich ffistwla tra ei fod yn gwella.

## Pethau i'w hosgoi:

- Bod yn rhwym – ceisiwch atal hyn trwy fwyta digon o fwyd garw yn eich deiet ac yfed digon o hylifau.
- Paratoadau sy'n cynnwys asid salicylig fel aspirin (oni bai bod eich meddyg wedi dweud fel arall), gan y gallai gynyddu eich risg o waedu.
- Enemas neu dawddgyffuriau – oni bai eu bod wedi'u rhagnodi'n benodol.
- Gor-yfed alcohol am o leiaf 2 wythnos.

## Cysylltwch â'r Hwb Llawfeddygol, eich Meddyg Teulu neu 111 os:

- Byddwch yn cael anhawster pasio wrin.
- Byddwch yn cael anhawster agor eich coluddion.
- Bydd chwydd/cochni neu redlif o'ch clwyfau.

## Cysylltwch â 111 neu ewch i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys os:

- Byddwch chi'n pasio llawer o waed.

**Rhifau cyswllt allweddol**

Os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â:
Hwb Llawfeddygol (7am-7pm Dydd Llun-Dydd Gwener) – **02921 826510 neu 02921 826348**
Gofal Brys Llawfeddygol yr Un Diwrnod (sSDEC) yn YAC: drwy'r switsfwrdd – **02920 747747**
**Eich Meddyg Teulu neu 111** ar gyfer gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau gwaith neu'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys

Fersiwn 1.1 Ebrill 2026